Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion ar Waith

Mai 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **3**

Prif ganfyddiadau **5**

Argymhellion **9**

Gweithredu argymhellion adroddiadau blaenorol **10**

Cynnydd yng ngwahanol feysydd ffocws y fenter **12**

Safonau mewn addysg gorfforol mewn ysgolion canolfannau datblygu 12
Datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion 14
Trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 16
Datblygiad proffesiynol parhaus a mentora 18
Cyfnod cyflwyno'r fenter 20
Cynaliadwyedd y fenter 21
Rheoli'r fenter 23
Prosiectau arbenigol 26

Atodiad 1: Cynllun Gweithredu AGChY ar gyfer Cymru (cyhoeddwyd 2001)

Atodiad 2: Modelau ar gyfer partneriaethau AGChY

Geirfa

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i'r cais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yng nghylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn yn 2007-2008, i arfarnu cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion (AGChY) ar waith. Cyflwynwyd y fenter yn 2001 i ymateb i'r cynllun gweithredu gan y tasglu AGChY (gweler Atodiad 1 am grynodeb).

2 Cynhelir yr arfarniad yng nghyd-destun gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am wlad iachach sydd wedi'i haddysgu'n well, wedi'i fynegi yn 'Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru'[1]. Mae'r cylch gwaith yn dangos cefnogaeth benodol i raglen Y Wlad sy'n Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys yr ymdrech i:

- sicrhau pontio gwell rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd; a
- rhoi cymorth cryfach i ymarferwyr, gan gynnwys sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar.

3 Mae'r arfarniad yn ystyried gwahanol feysydd ffocws y fenter AGChY, sef:

- safonau mewn addysg gorfforol mewn ysgolion canolfannau datblygu;
- datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion;
- trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3;
- datblygiad proffesiynol parhaus a mentora;
- cyfnod cyflwyno'r fenter;
- cynaliadwyedd y fenter;
- rheoli'r fenter; a
- phrosiectau arbenigol.

4 Mae'r cylch gwaith yn adeiladu ar dri adroddiad blaenorol ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r Cynllun Gweithredu AGChY ar waith, sef:

1 *'Y Fenter Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion – Cynnydd wrth weithredu yn yr ysgolion Canolfannau Datblygu yng Nghymru 2004-2005';*
2 *'Golwg fanwl ar y cynnydd a wnaed wrth roi'r Cynllun Gweithredu AGChY ar waith' – 2006; a'r*
3 *'Cynnydd a wnaed wrth roi'r Cynllun Gweithredu AG a Chwaraeon mewn Ysgolion ar waith mewn ysgolion' – Mawrth 2007.*

[1] 'Cymru'n Un – Rhaglen flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2007)

Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan Estyn yn: www.estyn.gsi.gov.uk

5 Mae'r adroddiad yn defnyddio sail y dystiolaeth o adroddiadau arolygu ysgolion Estyn rhwng mis Medi 2005 a mis Rhagfyr 2007, arsylwadau gwersi mewn 13 ysgol gynradd ac 14 o wersi cyfnod allweddol 3 a chyfarfodydd a thrafodaethau â:

- chydlynwyr AGChY (gweler yr eirfa) o 11 awdurdod lleol;
- rheolwyr lleol o 19 o ganolfannau AGChY;
- darlithwyr addysg gorfforol arbenigol o dri sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon;
- ymgynghorwyr sy'n gyfrifol am addysg gorfforol mewn pum awdurdod lleol (ALlau);
- swyddogion o Gyngor Chwaraeon Cymru; ac
- arbenigwyr AGChY a benodwyd i gefnogi canolfannau datblygu a datblygu prosiectau arbenigol y fenter.

Cefndir

6 Mae'r fenter AGChY yn cynnwys nifer o elfennau, sef:

- gwella safonau mewn addysg gorfforol yn y cwricwlwm;
- gwneud yn siŵr bod addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn rhoi'r hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i hyfforddeion addysgu addysg gorfforol;
- sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) achrededig mewn addysg gorfforol ar gyfer pob athro; a
- sefydlu canolfannau datblygu'r cwricwlwm (gweler Atodiad 2) a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion.

7 Bu ffocws hefyd ar wella cyfleusterau sydd wedi canolbwyntio ar fentrau a ariennir gan y Loteri Fawr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith i wella safonau yn digwydd yn y canolfannau datblygu AGChY a thrwyddynt (gweler Atodiad 2). Mae nifer o brosiectau arbenigol ychwanegol yn ategu ac yn ymestyn y gwaith hwn trwy gynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu. Caiff y gwaith ar hyfforddiant cychwynnol i athrawon ei arwain gan ymgynghorwyr arbenigol o sefydliadau addysg uwch ac arweinir yr elfen datblygiad proffesiynol gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae pob un o'r elfennau yn dibynnu ar ei gilydd.

8 Yn ystod saith mlynedd gyntaf y fenter AGChY, mae arolygwyr wedi ymweld â chanolfannau datblygu o leiaf ddwywaith ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a theirgwaith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac maent wedi arfarnu'r cynnydd ynddynt.

9 I ddechrau, ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru rhaglen beilot o 18 o ganolfannau datblygu ledled Cymru. Mae canolfannau datblygu yn cynnwys partneriaethau rhwng ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Gallai partneriaid eraill gynnwys darparwyr addysg ôl-16 neu ganolfannau hamdden. Caiff natur pob canolfan ddatblygu ei phennu gan anghenion, diddordebau ac arbenigeddau lleol a rhanbarthol. Caiff partneriaid priodol eu dewis gan yr awdurdod lleol i ategu cynlluniau presennol yr awdurdod lleol.

10 Diben allweddol canolfan ddatblygu yw nodi, cryfhau a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion. Mae rheolwyr AGChY Cyngor Chwaraeon Cymru yn disgwyl i ganolfannau ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, defnyddio cyfleusterau a datblygu staff. Dylai'r canolfannau gyfrannu i'r broses o wella safonau ledled Cymru trwy rannu gwybodaeth ac arfer dda gydag ysgolion nad ydynt yn aelodau o ganolfannau datblygu ar hyn o bryd.

11 Ers i'r fenter AGChY ddechrau yn 2001, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi rhoi cymorth i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru wrth sefydlu 161 o bartneriaethau AGChY ledled Cymru. Mae 73 o ganolfannau datblygu llawn ar hyn o bryd. Nid yw

26 o ganolfannau datblygu eraill yn derbyn cyllid llawn ar hyn o bryd, ond maent wedi ymrwymo o hyd i gynnal gwaith da a pharhau i ddatblygu fel clwstwr o ysgolion. Mae llawer o'r 'partneriaethau cynaliadwy' hyn (gweler Atodiad 2) yn parhau i gael hyfforddiant a chymorth am ddim gan gydlynwyr ac arbenigwyr AGChY. Mae mwyafrif o ganolfannau wedi cael symiau bach o arian, am flwyddyn fel arfer, i gwblhau elfennau o'u cynlluniau strategol neu i gynnal y cyfarfodydd partneriaeth. Yn fwy diweddar, fel rhan o gyfnod cyflwyno arfaethedig y fenter i bob ysgol yng Nghymru, mae awdurdodau lleol wedi sefydlu 61 o 'ganolfannau ffocws' (gweler Atodiad 2). Caiff y canolfannau hyn swm cyfyngedig o gyllid i gefnogi cynllun gweithredol â ffocws sy'n mynd i'r afael ag un neu ddau o agweddau ar ddysgu ac asesu mewn addysg gorfforol.

12 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ariannu'r fenter, ac mae wedi cynghori rheolwyr Cyngor Chwaraeon Cymru i gyflwyno'r fenter ym mhob ysgol yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cynllunio gydag awdurdodau lleol a chydlynwyr AGChY i gyflawni hyn erbyn 2009.

Prif ganfyddiadau

13 Mae'r fenter AGChY yn parhau i wneud cynnydd da iawn tuag at fodloni holl argymhellion allweddol y cynllun gweithredu i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2001 (gweler atodiad 1). Mae'r adroddiad hwn yn nodi llawer o enghreifftiau o arfer dda a fydd o fudd i'r ysgolion sy'n gweithio i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

Safonau

14 Mae safonau mewn addysg gorfforol wedi gwella bron ym mhob ysgol sydd wedi bod yn ymwneud â'r fenter ers tro. Mae safonau yn gwella'n gyflym iawn yn yr ysgolion cynradd yn y canolfannau datblygu mwy newydd.

15 Mewn ysgolion cynradd, mewn tua 40% o'r gwersi a arsylwyd, roedd y safonau yn dda gyda nodweddion rhagorol (gradd 1), yn fwyaf cyffredin mewn gymnasteg a dawns. O'i gyferbynnu, ym mhob ysgol gynradd a arolygwyd gan Estyn rhwng mis Medi 2005 a diwedd mis Rhagfyr 2007, dim ond 5% o ddosbarthiadau addysg gorfforol y barnwyd eu bod yn radd 1. Mae disgyblion hefyd yn datblygu eu medrau allweddol yn well oherwydd bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n eu hannog i ddysgu yn annibynnol, i fabwysiadu rolau fel dysgwyr a dadansoddi ac arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Mae disgyblion hefyd yn caffael ymwybyddiaeth llawer gwell o iechyd a lles personol a phwysigrwydd gweithgaredd corfforol rheolaidd.

16 Mewn tua 86% o wersi cyfnod allweddol 3 a arsylwyd ar gyfer y cylch gwaith hwn mewn ysgolion uwchradd, roedd safonau'n dda (gradd 2) neu'n well, ac roedd nodweddion rhagorol (gradd 1) mewn tua 14% o'r gwersi. Ym mhob un o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd gan Estyn rhwng mis Medi 2005 a mis Rhagfyr 2007, roedd 71% o ddosbarthiadau addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3 yn dda (gradd 2) neu'n well a dim ond 3% o'r dosbarthiadau a gafodd eu barnu yn radd 1. Mae'r safonau yn fwy cyson oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn dosbarth wedi cael profiadau dysgu cyffredin yn eu hysgolion cynradd.

17 Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i holl fanteision y fenter fod wedi bwydo trwodd yn llawn i gyfnod allweddol 3. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 3 a arsylwyd, er bod sawl disgybl yn dangos safonau da iawn yn eu gwaith, roedd gan leiafrif o ddisgyblion wybodaeth a gwerthfawrogiad llai sefydledig o'r themâu ac egwyddorion allweddol. Mewn llawer o ddosbarthiadau, yn enwedig ym Mlwyddyn 8, mae'n anodd nodi maint effaith AGChY hyd yn hyn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod mentora o ansawdd uchel mewn ysgolion cynradd dim ond wedi datblygu a chael ei ymgorffori yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn rhai achosion, nid yw athrawon addysg gorfforol uwchradd yn cynllunio'n ddigon da nac yn herio disgyblion i gyflawni safonau uchel.

Datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion

18 Roedd llawer o'r penaethiaid a gafodd eu cyfweld yn dweud bod AGChY wedi cyfrannu i welliannau sylweddol yn agweddau ac ymddygiad disgyblion. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i'r cyfleoedd arweinyddiaeth a ddarperir gan AGChY.

Trosglwyddo

19 Mae gwaith ar drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3 wedi bod yn un o elfennau mwyaf llwyddiannus y fenter AGChY. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws ysgolion partneriaeth. Lle mae'n fwyaf effeithiol, mae ysgolion clwstwr wedi cydweithredu i ddatblygu cynlluniau gwaith sy'n darparu profiadau dysgu cyffredin mewn ysgolion cynradd sy'n bwydo a chyfleoedd da ar gyfer dilyniant yng nghyfnod allweddol 3.

20 Mewn rhai canolfannau datblygu, mae ysgolion cynradd yn rhoi proffiliau unigol i ysgolion uwchradd sy'n dangos cynnydd disgyblion mewn addysg gorfforol yn glir. Mae'r proffiliau hyn yn helpu athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn fwy cywir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gyffredin.

21 Mae'r cyswllt rhwng cydlynwyr AGChY, 5x60[2] (gweler yr eirfa) a swyddogion Campau'r Ddraig[3] (gweler yr eirfa) yn datblygu'n dda iawn. Mae'r swyddogion sy'n arwain y mentrau hyn ym mhob awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio a chydlynu eu gwaith a sicrhau bod pob menter yn cefnogi ac yn ategu gwaith y mentrau eraill.

Datblygiad proffesiynol parhaus a mentora

22 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn darparu rhaglen hyfforddi eang ar gyfer athrawon, trwy hyfforddiant mewn swydd canolog a hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol. Mae nifer fawr o athrawon wedi elwa ar y cyrsiau hyn.

23 Mae tystiolaeth dda, hyd yn oed pan fydd cyllid uniongyrchol wedi dod i ben, bod etifeddiaeth o fanteision enfawr i'r ysgolion sy'n cymryd rhan. Y fantais a'r agwedd gynaliadwy amlycaf yn y tymor hir o ran y fenter hon oedd y gwelliant yn ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd. Mae llawer o athrawon cynradd yn ystyried eu bod wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysg gorfforol a'u bod wedi datblygu strategaethau addysgu gwell, mwy strwythuredig, y mae rhai ohonynt yn trosglwyddo'n dda i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae hyn oherwydd bod yr athrawon hyn wedi elwa ar drefniadau mentora effeithiol, cynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu da iawn ac ystod eang y cyrsiau sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon cynradd yn fwyfwy hyderus yn addysgu agweddau penodol ar addysg gorfforol fel gymnasteg a dawns ac yn fwy ymwybodol o'r safonau y gallant ddisgwyl i ddisgyblion eu cyflawni.

Cyflwyno'r fenter a'i chynaliadwyedd

24 Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw wedi llunio cynlluniau priodol a threfnus i gyflwyno'r fenter ym mhob ysgol yn yr awdurdod erbyn 2009. Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull hyblyg ar gyfer dyrannu cyllid. Yn yr awdurdodau hyn, mae swyddogion yn pennu union lefel y cyllid ar sail maint y bartneriaeth, ansawdd eu hunanarfarniad cychwynnol a natur ac effaith debygol y prosiectau arfaethedig.

---

[2] Rhaglen newydd sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru yw 5x60 a'i nod yw cael disgyblion ysgol uwchradd yng Nghymru i fod yn fwy heini.

[3] Rhaglen sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru yw Campau'r Ddraig, sy'n cyflwyno plant 7-11 oed i ystod o chwaraeon y tu allan i wersi Addysg Gorfforol yn yr ysgol.

25 Pan fydd y cyllid wedi dod i ben, mae gwaith partneriaeth yn fwyaf llwyddiannus lle bydd ymrwymiad ac awydd clir yn cael eu dangos gan y rheiny o'r clwstwr o ysgolion i gael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael. Mae o leiaf un person ym mhob clwstwr sy'n cydnabod manteision gwaith partneriaeth parhaus ac yn barod i roi amser ac egni i ysgogi'r fenter yn y clwstwr hwnnw ac mae hyn yn ysgogi eraill i ymuno.

Rheoli

26 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae dogfennau cynllunio strategol allweddol yn dangos cydnabyddiaeth gynyddol o'r graddau y mae AGChY yn ganolog i flaenoriaethau allweddol yr awdurdodau. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, caiff AGChY ei rheoli'n dda yn y gyfarwyddiaeth addysg.

27 Yn gynyddol, fel rhan o broses sicrhau ansawdd, mae arbenigwyr AGChY yn darparu arfarniadau defnyddiol o ansawdd y fenter a'i heffaith mewn awdurdodau lleol unigol ar gyfer swyddogion addysg a rheolwyr Cyngor Chwaraeon Cymru. Yn yr achosion gorau, mae ymgynghorwyr addysg gorfforol yn cynnal adolygiadau blynyddol manwl o bob canolfan. Mae'r adolygiadau hyn yn cadarnhau safonau ac yn nodi meysydd i'w gwella ym mhob ysgol.

28 Mae rheolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar y fenter yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r cyfathrebu a'r berthynas ag uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn gadarnhaol ac maent yn cyfrannu'n dda i gynnydd ac effaith y fenter. Mae'r hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr AGChY yn gynyddol effeithiol ac yn cael ei drefnu'n dda.

29 Mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae AGChY yn llai llwyddiannus. Yn yr ysgolion hyn:

- nid yw'r penaethiaid wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn nodi sut gallant gefnogi'r fenter o'r ystod o gyllid amgen sydd ar gael;
- ni chafwyd monitro effeithiol i sicrhau bod trefniadau parhad a dilyniant o un grŵp blwyddyn i'r dosbarth nesaf yn gadarn; ac
- nid yw rhai athrawon uwchradd wedi ymrwymo i'r fenter cymaint â'u partneriaid cynradd.

Prosiectau arbenigol

30 Mae gwaith y prosiectau arbenigol yn datblygu'n dda. Mae grwpiau datblygu yn y pedwar maes, sef dawns, gymnasteg, ymarfer corff yn gysylltiedig ag iechyd (gweler yr eirfa) a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi cynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu cynhwysfawr, ac mae rhai ohonynt yn rhagorol. Ar hyn o bryd, mae'r ymgynghorwyr yn diwygio'r adnoddau i ystyried y diwygiadau a wnaed i'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu i'w rhoi ar waith ym mis Medi 2008 (gweler yr eirfa – Cwricwlwm Cymru 2008). Mae athrawon, ymgynghorwyr a sefydliadau addysg uwch wedi croesawu'r adnoddau hyn. Yn achos gymnasteg, maent eisoes wedi cael effaith sylweddol ar safonau disgyblion. Bydd effaith gwaith y prosiectau arbenigol, mewn dawns a gymnasteg, er enghraifft, yn gynaliadwy ar ôl cyfnod y cyllid ar gyfer AGChY oherwydd bod llawer o hyfforddwyr a mentoriaid ledled Cymru erbyn hyn sy'n gallu parhau i gefnogi ysgolion yn y dyfodol.

Argymhellion

31 Er mwyn cynnal a datblygu effaith y fenter ar safonau mewn addysg gorfforol:

dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ystyried y ffordd orau o gynnal arfer dda ac effaith y fenter; ac

A2 ystyried y ffordd orau o hyrwyddo a sicrhau argaeledd yr adnoddau addysgu a dysgu a gynhyrchir gan AGChY mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig;

dylai awdurdodau lleol:

A3 weithio gyda'u harbenigwyr i fonitro effaith y fenter ar safonau disgyblion yn fwy cywir;

A4 sicrhau bod dyrannu cyllid yn y cyfnod cyflwyno wedi'i alinio'n uniongyrchol â hunanarfarnu effeithiol ac ymrwymiad clir i'r fenter;

A5 cefnogi ysgolion i ddatblygu dulliau creadigol i sicrhau cynaliadwyedd y fenter lle bydd cyllid wedi dod i ben, a monitro cynnydd;

A6 cymryd camau i nodi a datblygu rheolwyr posibl canolfannau datblygu sydd â'r gallu i ysgogi mentrau drwyddi draw; a

A7 sicrhau bod ffocws priodol ym mhob partneriaeth ar ddatblygu strategaethau asesu cyffredin;

dylai Cyngor Chwaraeon Cymru:

A8 lle bo'n briodol, parhau i addasu a mireinio'r adnoddau sydd eisoes wedi'u cynhyrchu i ystyried gofynion y Cyfnod Sylfaen; a

A9 sefydlu trefniadau addas ar gyfer sicrhau ansawdd ac arfarnu effaith gwaith yr holl brosiectau arbenigol i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol; a

dylai ysgolion AGChY:

A10 ymgynghori'n eang i ystyried y ffordd orau o ymestyn effaith y fenter o ystod y cyllid amgen sydd ar gael;

A11 ystyried sut i ddatblygu modelau hunanasesu er mwyn i ddisgyblion allu llunio proffiliau addysg bersonol a chorfforol y gallant fynd gyda nhw i'r ysgol uwchradd; a

A12 gwneud trefniadau priodol i sicrhau'r ddarpariaeth gorau posibl ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Gweithredu argymhellion adroddiadau blaenorol

32 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cyrff perthnasol wedi mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad blaenorol yn dda. Mae'r camau penodol a gymerodd pob partner wedi'u hamlinellu isod.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

33 Gwahoddwyd nifer fach o ymgynghorwyr AGChY i gyfrannu i'r adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn i'r arfer dda o AGChY lywio'r adolygiad o'r cwricwlwm ysgol a'r broses o gynhyrchu adnoddau ac arweiniad ar gyfer ysgolion. Mae ymgynghorwyr AGChY sy'n arwain prosiectau arbenigol yn cymryd camau priodol i ddatblygu, mireinio ac addasu adnoddau i ystyried y diwygiadau a wnaed i'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu a fydd yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2008. Yn benodol, mae ymgynghorwyr yn cyfeirio at ddatblygu medrau yn fwy eglur a sicrhau eu bod yn gydnaws â'r gofynion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Awdurdodau addysg lleol

34 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rheoli ac yn cefnogi gwaith eu cydlynwyr AGChY yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae strwythurau rheoli clir ac mae cydlynwyr AGChY yn trafod agweddau ar eu gwaith gydag uwch swyddogion yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu systemau effeithiol i oruchwylio gwaith cydlynwyr AGChY a'u cynorthwyo wrth hyrwyddo a chyflwyno'r fenter. Lle mae ymgynghorydd addysg gorfforol, mae'r trefniadau hyn yn hynod gryf.

35 Mae awdurdodau lleol yn annog ysgolion yn weithredol i barhau i ariannu'r fenter. Mewn llawer o achosion, maent yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi prosiectau pellach a chynnal gwaith clystyrau. Er enghraifft, mae ysgolion yn aml wedi gallu cael mynediad at Gyllid Ysgolion Gwell i gefnogi prosiectau trosglwyddo. Mewn rhai achosion, mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i barhau i ariannu'r holl ganolfannau mor hir ag y bo modd.

Cyngor Chwaraeon Cymru

36 Mae'r cyswllt rhwng AGChY a'r rhaglen Pobl Ifanc Egnïol (AYP) (gweler yr eirfa am ragor o wybodaeth) yn datblygu'n dda. Mae swyddogion sy'n arwain y mentrau sy'n cynnwys y rhaglen yn cydweithredu'n dda i lunio amserlenni trefnus ar gyfer ymgorffori pob clwstwr yn llawn ym mhob un o dair elfen y rhaglen. Mae ffocws AGChY wedi parhau yn gadarn iawn ar agweddau ar y cwricwlwm. Mewn llawer o achosion, mae trefniadau da iawn i fynd i'r afael â nhw a chefnogi prosiectau AGChY penodol gyda gweithgareddau allgyrsiol cysylltiedig wedi'u trefnu gan Gampau'r Ddraig neu 5x60.

37 Penodwyd chwe chydlynydd AGChY ychwanegol i gefnogi'r fenter yn yr awdurdodau mwyaf lle mae mwy o ysgolion, a lle bydd y baich gwaith sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen yn fwy. Ar hyn o bryd, mae cydlynwyr AGChY yn ystyried bod modd rheoli'r baich. Bydd angen i Gyngor Chwaraeon Cymru barhau i fonitro'r agwedd hon yn ofalus wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno.

Ysgolion canolfannau datblygu

38 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion canolfannau datblygu yn awr yn cyfeirio at weithgareddau AGChY yn eu cynlluniau gwella ysgol.

39 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cefnogi'r fenter trwy ddod o hyd i gyllid ychwanegol, er enghraifft, i anfon mwy nag un athro ar gwrs hyfforddi. Mae sawl un o'r canolfannau mwy dychmygus ac ymrwymedig wedi cael cyllid wedi'i ddyrannu i fentrau â ffocws cymunedol, grantiau trosglwyddo, ac i gefnogi cynhwysiad. Mae canolfannau eraill wedi gwneud cais i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gael cyllid i gefnogi prosiectau penodol neu i gynnal gweithgareddau partneriaeth.

40 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn rhoi cefnogaeth dda i athrawon nad ydynt yn athrawon arbenigol i ddatblygu eu harbenigedd mewn addysgu addysg gorfforol. Maent yn gwneud hyn trwy ariannu eu presenoldeb ar gyrsiau AGChY neu, yn yr achosion gorau, trwy fentora mewnol effeithiol. Mewn llawer o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cyfran uchel o athrawon wedi elwa ar fynychu o leiaf un cwrs AGChY. Yn y gwersi a arsylwyd, mae effaith y gwaith hwn yn amlwg trwy ansawdd yr addysgu cyffredinol dda neu dda iawn a'r lefelau hyder llawer gwell a amlygir gan y rhan fwyaf o athrawon.

Cynnydd yng ngwahanol feysydd ffocws y fenter

Safonau mewn addysg gorfforol mewn ysgolion canolfannau datblygu

41 Mae safonau mewn addysg gorfforol wedi gwella bron ym mhob ysgol sydd wedi ymwneud â'r fenter ers tro ac maent yn gwella'n gyflym iawn mewn ysgolion cynradd yn yr ysgolion canolfannau datblygu mwy newydd.

42 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae ansawdd gwaith y disgyblion yn llawer gwell. Mewn tua 40% o'r gwersi a arsylwyd, yn fwyaf cyffredin mewn gymnasteg a dawns, roedd safonau'n dda gyda nodweddion rhagorol (gradd 1). Mae'r ffigur hwn yn cyferbynnu â'r ffigur ar gyfer pob un o'r ysgolion cynradd a arolygwyd gan Estyn rhwng mis Medi 2005 a mis Rhagfyr 2007, lle barnwyd mai dim ond 5% o'r dosbarthiadau addysg gorfforol oedd yn radd 1.

43 Mewn ysgolion uwchradd, mewn tua 86% o wersi cyfnod allweddol 3 a arsylwyd mewn ysgolion uwchradd, roedd safonau yn dda (gradd 2) neu'n well ac roedd nodweddion rhagorol (gradd 1) mewn tua 14% o'r gwersi. Mae hyn yn cyferbynnu â'r holl ysgolion uwchradd a arolygwyd gan Estyn rhwng mis Medi 2005 a diwedd 2007. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 71% o'r dosbarthiadau addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3 yn dda (gradd 2) neu'n well a dim ond 3% o'r dosbarthiadau y barnwyd eu bod yn radd 1.

44 Mewn ysgolion lle mae safonau mewn addysg gorfforol wedi gwella, mae disgyblion o bob oedran:

- yn cynllunio ac yn canolbwyntio'n dda ar berfformiad;
- yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn disgrifio'r ffactorau sy'n cyfrannu at waith da;
- yn arsylwi gwaith disgyblion eraill yn gywir ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol a sensitif ar gyfer gwella ymhellach;
- yn gwybod am fanteision corfforol, cymdeithasol a meddyliol gweithgaredd corfforol; ac
- yn gallu esbonio pwysigrwydd a manteision ymarfer corff i ffordd iach o fyw.

45 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn egluro'r safonau rhagorol y mae disgyblion dosbarth derbyn yn eu cyflawni mewn gymnasteg mewn un ysgol yn ne Cymru.

Astudiaeth achos 1

Cyd-destun: Ysgol gynradd o ryw 260 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed sy'n gwasanaethu ardal breswyl yn ne Cymru.

Gweithredu: Mae'r astudiaeth achos hon yn egluro'r safonau rhagorol y mae dosbarth derbyn o 20 o ddisgyblion yn eu cyflawni mewn gymnasteg. Mae ffocws y wers ar adeiladu geirfa o symud a medrau. Mae'r athro yn gwneud defnydd ardderchog o adnoddau AGChY, arddangosiadau disgyblion a chwestiynau wedi'u targedu'n dda i esbonio'r hyn sy'n dda a dangos i ddisgyblion sut i wella ansawdd eu gwaith. Mae nodweddion rhagorol yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac yn ansawdd yr addysgu.

Canlyniadau: Yn y dosbarth derbyn hwn, mae disgyblion:

- yn galw i gof ac yn defnyddio iaith sy'n benodol i'r pwnc yn briodol;
- yn gyfarwydd â, ac yn dangos gweithgareddau corff-addysg gan ddangos tensiwn corff ac ymestyn da iawn;
- yn siarad am effeithiau ymarfer ar y corff;
- yn disgrifio mathau penodol o symud yn briodol;
- yn esbonio nodweddion da gwaith eu partneriaid yn gywir ac yn awgrymu sut y gallent wella; ac
- yn rhoi dilyniant o bedwar symudiad at ei gilydd gyda llif ac ansawdd da iawn.

46 Yn y rhan fwyaf o ganolfannau datblygu mewn ysgolion uwchradd, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn dangos safonau uwch o berfformio mewn gweithgareddau, fel dawns a gymnasteg nag o'r blaen. Mae mwy o gysondeb mewn safonau oherwydd bod y rhan fwyaf o'r disgyblion mewn dosbarth wedi cael profiadau dysgu cyffredin yn eu hysgolion cynradd.

47 Mae rheolwyr canolfannau datblygu ac athrawon arbenigol uwchradd, mewn trafodaethau ag arolygwyr, yn cadarnhau barnau arolygwyr o arsylwadau gwersi am safonau gwell. Dywed athrawon eu bod yn gallu symud disgyblion trwy gynlluniau gwaith cynlluniedig yn gyflymach nag o'r blaen oherwydd bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn dosbarthiadau cynradd ac nid oes angen iddynt dreulio amser erbyn hyn yn sefydlu medrau sylfaenol.

48 Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, mae athrawon wedi diwygio cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 3, mewn gymnasteg yn bennaf, i ystyried safonau perfformiad a dealltwriaeth gyffredinol uwch y disgyblion.

49 Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth o nodweddion rhagorol mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol 3. Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau a arsylwyd, er bod sawl disgybl

yn dangos safonau da iawn yn eu gwaith, roedd gan leiafrif o'r disgyblion wybodaeth a gwerthfawrogiad llai sefydledig o themâu ac egwyddorion allweddol. Mewn llawer o ddosbarthiadau, yn enwedig ym Mlwyddyn 8, mae'n anodd nodi faint o effaith y mae AGChY wedi'i gael hyd yn hyn. Yn gyffredinol, mae'n rhy gynnar i holl fanteision y fenter fod wedi bwydo trwodd yn llawn i gyfnod allweddol 3 oherwydd bod mentora o ansawdd uchel mewn ysgolion cynradd dim ond wedi datblygu ac wedi cael ei ymgorffori yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, nid yw grwpiau hŷn o ddisgyblion mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 bob amser wedi cael profiadau dysgu cyffredin yn eu hysgolion cynradd.

50 Mae'r cynnydd cyfyngedig a wna disgyblion mewn rhai dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 3 hefyd oherwydd, mewn gweithgareddau penodol, nid yw rhai athrawon addysg gorfforol uwchradd yn cynllunio'n ddigon da nac yn herio disgyblion i gyflawni safonau uchel. Yn y gwersi hyn, nid yw'r addysgu mor effeithiol â'r addysgu mewn llawer o'r gwersi sy'n cael eu haddysgu gan gydweithwyr cynradd sydd wedi elwa'n sylweddol ar fentora AGChY.

Arfer dda

Mewn canolfannau datblygu lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- disgwyliadau uwch o ddisgyblion o bob oedran, sy'n arwain at safonau perfformiad uwch mewn gweithgareddau, fel dawns a gymnasteg, nag o'r blaen;
- mwy o gysondeb yn y safonau mewn dosbarthiadau ym Mlwyddyn 7 oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion mewn dosbarth wedi cael profiadau dysgu cyffredin yn eu hysgolion cynradd a bod athrawon uwchradd yn gallu adeiladu ar y trefniadau trosglwyddo gwell;
- datblygu da o ran medrau allweddol, yn enwedig medrau dysgu annibynnol, cynllunio a gwneud penderfyniadau, a gallu i ddadansoddi ac arfarnu ansawdd gwaith y disgyblion eu hunain a gwaith disgyblion eraill; a
- diwygio cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 3, mewn gymnasteg yn bennaf, i ystyried safonau perfformiad a dealltwriaeth cyffredinol uwch y disgyblion.

Datblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion

51 Mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn well trwy'r fenter AGChY oherwydd bod athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n eu hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol, mabwysiadu rolau fel arweinwyr a dadansoddi ac arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

52 Mae llawer o benaethiaid y cyfwelwyd â nhw yn ystyried bod AGChY wedi cyfrannu i welliannau sylweddol yn ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at yr ysgol. Dywedant fod disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn well mewn ystod o weithgareddau mewn addysg gorfforol, a'r tu allan i'r pwnc, ac mae disgyblion hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o lawer o iechyd a lles personol a phwysigrwydd gweithgaredd corfforol rheolaidd.

53 Mae elfen lwyddiannus iawn ar y fenter wedi canolbwyntio ar ddatblygu medrau arweinyddiaeth disgyblion. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi hyfforddi disgyblion hŷn i fod yn arweinwyr gweithgareddau cae chwarae o ddeunyddiau adnodd 'Yn y Parth ('In the Zone') (gweler yr eirfa) ar gyfer athrawon. Mewn rhai achosion, mae disgyblion wedi datblygu siarter chwarae teg sy'n seiliedig ar barch at eraill. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda trwy'r gwaith hwn.

54 Mae'r astudiaeth achos isod yn egluro'r modd y mae un ysgol wedi datblygu dull integredig ar gyfer datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal â chynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion wella eu medrau symud a ffitrwydd sylfaenol.

Astudiaeth achos 2

Cyd-destun: Ysgol gynradd gymunedol fawr o ryw 375 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed sy'n gwasanaethu ardal breswyl mewn tref yng ngogledd Cymru.

Strategaeth: Yn un o gyfarfodydd cynllunio cychwynnol y ganolfan ddatblygu, nododd yr ysgol uwchradd fod angen rhoi mwy o bwyslais ar fedrau symud a ffitrwydd sylfaenol yn yr ysgolion cynradd. Roedd tair ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd yn gweld bod gweithgareddau cae chwarae yn ffordd o fynd i'r afael â'r diffyg hwn a'u bod hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'u polisïau 'Ysgolion Iach'.

Gweithredu: Datblygodd yr ysgol raglen hyfforddiant llwyddiannus iawn ar gyfer gemau ar yr iard chwarae. Mae'r fenter yn enghraifft arbennig o dda o ddull cysylltiedig sy'n mynd i'r afael yn llwyddiannus â sawl blaenoriaeth. Fe wnaeth yr ysgol gynnwys disgyblion yn y broses o ddiwygio ei pholisi ymddygiad a chysylltu'r polisi â hyfforddiant 'cyfeillion' cae chwarae.

Canlyniadau: Mae cyflwyno gweithgareddau cae chwarae 'Yn y Parth' wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ymddygiad disgyblion amser egwyl ac amser cinio, ac mae llai o achosion o ymddygiad gwael yn cael eu cofnodi bellach. Mae cyflwyno a threfniadaeth disgyblion o weithgareddau cae chwarae 'Yn y Parth' wedi cyfrannu i ddatblygiad medrau personol, cymdeithasol ac arweinyddiaeth disgyblion, ac ar yr un pryd, wedi helpu disgyblion i wella eu medrau symud a ffitrwydd sylfaenol.

Ymhlith y manteision ehangach i'r prosiect hwn y mae'r cyfleoedd a gaiff disgyblion am awr ychwanegol o chwarae gweithredol bob dydd.

55 Mewn llawer o ysgolion uwchradd, rhoddwyd pwyslais cynyddol ar hyrwyddo a threfnu ystod o gyrsiau arweinyddiaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 yn bennaf. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys y Dyfarniad Arweinwyr Chwaraeon Iau (JSLA), y Dyfarniad Arweinwyr Chwaraeon Cymunedol (CSLA), y Dyfarniad Arweinwyr Dawns a chyrsiau amrywiol Arweinwyr Campau'r Ddraig. Mae tua hanner yr holl ysgolion uwchradd partneriaeth yn cynnig y JSLA neu'r CSLA fel rhan o'u rhaglen. Mewn llawer o ganolfannau, mae'r myfyrwyr hyn wedi cyfrannu'n werthfawr at drefnu gwyliau chwaraeon neu drwy ymweld ag ysgolion cynradd i gynorthwyo athrawon i gynnal clybiau aml-weithgaredd.

Arfer dda

Mewn canolfannau datblygu lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- gwelliannau mewn ymddygiad, gallu i weithio ag eraill ag agweddau at yr ysgol;
- medrau personol, arweinyddiaeth a chymdeithasol gwell trwy waith disgyblion fel 'cyfeillion' wrth drefnu gweithgareddau cae chwarae 'Yn y Parth', er enghraifft, a thrwy eu hymglymiad mewn ystod o gyrsiau a gweithgareddau arweinwyr chwaraeon; a
- llawer mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd a lles personol ac o bwysigrwydd gweithgaredd corfforol rheolaidd.

Trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3

56 Mae'r gwaith ar drosglwyddo yn parhau i fod yn un o elfennau mwyaf llwyddiannus y fenter AGChY. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r cysylltiadau trosglwyddo yn gryfach ac yn fwy diogel.

57 Mae'r berthynas broffesiynol rhwng athrawon cynradd ac uwchradd wedi'u sefydlu'n fwy cadarn ac maent yn parchu ei gilydd. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith sylweddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws ysgolion partneriaeth. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae'r trefniadau trosglwyddo wedi cael eu gwella trwy:

- gydweithio i ddatblygu cynlluniau gwaith ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol, fel gymnasteg, dawns, ymarfer corff yn gysylltiedig ag iechyd a gweithgareddau awyr agored ac anturus, mewn ysgolion cynradd sy'n bwydo;
- cytundeb rhwng pob partner am bolisïau a disgwyliadau cyffredin o ran addysg gorfforol; ac
- nid oes angen i athrawon Blwyddyn 7 wastraffu amser yn sefydlu gweithdrefnau ac arferion y mae disgyblion eisoes yn eu deall yn glir.

58 Lle mae'r trosglwyddo wedi'i gynllunio'n dda, dywed llawer o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â throsglwyddo i'r ysgol uwchradd oherwydd eu bod yn fwy cyfarwydd ag athrawon uwchradd, sy'n aml wedi addysgu'r disgyblion hyn fel rhan o'u gwaith mentora, a'r cyfleusterau addysg gorfforol.

59 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn egluro'r modd y mae un ganolfan ddatblygu wedi defnyddio cyllid ychwanegol yn llwyddiannus i ddatblygu cynnwys cwricwlwm ym mhob ysgol bartner a chefnogi trefniadau trosglwyddo.

Astudiaeth achos 3

Cyd-destun: Canolfan ddatblygu wedi'i lleoli mewn ysgol gyfun o ryw 1,250 o ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed sy'n gwasanaethu ardal lled-wledig a threfi amgylchol yng ngogledd Cymru. Mae chwech o ysgolion cynradd neu ysgolion babanod yn y clwstwr.

Strategaeth: Mae'r ganolfan ddatblygu wedi defnyddio cyllid ychwanegol yn llwyddiannus i ddatblygu cynnwys y cwricwlwm ym mhob ysgol bartner a gwella trefniadau trosglwyddo.

Gweithredoedd: Cafodd y ganolfan ddatblygu Gyllid Ysgolion Gwell ar gyfer prosiect a gynlluniwyd i gefnogi'r broses drosglwyddo. Roedd y prosiect hwn yn cynnwys ffocws penodol ar gyfeiriadu. Roedd y ganolfan ddatblygu hefyd yn defnyddio cyllid AGChY i gynllunio cyrsiau ym mhob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo ac i drefnu cwrs cyfeiriadu ar gyfer athrawon hefyd.

Canlyniadau: Mewn gwers ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mewn un o'r ysgolion cynradd yn y clwstwr, cynlluniodd yr athrawon wahanol dasgau yn effeithiol er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer gallu grwpiau penodol o ddisgyblion. Rhoddwyd cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu medrau gwneud penderfyniadau a medrau meddwl. Anogodd yr athrawon y disgyblion i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain ac awgrymu sut y gallent wella, er enghraifft, trwy sicrhau amseroedd cyflymach yn sgil dewis llwybr gwell, mordwyaeth fwy manwl gywir a mwy o gywirdeb wrth ddod o hyd i'r rheolfannau.

Mynychodd y cydlynydd addysg gorfforol yr hyfforddiant cyfeiriadu ac mae wedi bod yn mentora'r athro dosbarth yn effeithiol iawn. Fel rhan o'r fenter, bydd disgyblion yn cael cyfle i ymweld ag ysgolion bwydo eraill i fynd i'r afael â chyrsiau gwahanol ac mae'r ysgol uwchradd yn datblygu rhaglen ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 a fydd yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfeiriadu.

I ddatblygu'r ffocws hwn ar weithgareddau awyr agored ac anturus ymhellach, mae'r awdurdod lleol wedi cynnwys cyfeiriadu yn un o'r gweithgareddau mewn gŵyl o chwaraeon ieuenctid y mae'n ei threfnu yn nes ymlaen yn 2008.

60 Mewn rhai canolfannau datblygu, mae ysgolion cynradd yn rhoi proffiliau unigol i ysgolion uwchradd sy'n dangos cynnydd disgyblion mewn addysg gorfforol yn glir. Mae'r proffiliau hyn yn helpu athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn fwy cywir. Fodd bynnag, nid yw hon yn arfer gyffredin.

61 Fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, mae'r staff mewn sawl ysgol gynradd yn bwriadu datblygu modelau arfarnu disgyblion a chymheiriaid a modelau hunanarfarnu mwy strwythuredig. Trwy ddefnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, bydd disgyblion yn datblygu proffiliau personol y gallant fynd gyda nhw i ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd effaith lawn dulliau o'r fath ar gyfer asesu gwell yn bwydo trwodd i ysgolion uwchradd am o leiaf ddwy flynedd.

62 Mae llawer o benaethiaid yn ystyried bod y model trosglwyddo AGChY yn hynod effeithiol. Mewn llawer o ysgolion ledled Cymru, mae penaethiaid wedi gofyn i athrawon addysg gorfforol esbonio i staff eraill sut y defnyddiwyd AGChY i gefnogi trosglwyddo er mwyn i adrannau eraill allu cynllunio i ddatblygu dulliau tebyg.

Arfer dda

Mewn canolfannau datblygu lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- polisïau a disgwyliadau addysg gorfforol cyffredin ar draws pob ysgol bartner;
- trefniadau trosglwyddo wedi'u cynllunio'n dda sy'n cyfrannu i barhad a dilyniant gwell; a
- phroffiliau unigol o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd sy'n nodi cynnydd disgyblion mewn addysg gorfforol yn glir ac yn helpu athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn fwy cywir.

Datblygiad proffesiynol parhaus a mentora

63 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn darparu rhaglen hyfforddi eang ar gyfer athrawon, trwy hyfforddiant mewn swydd canolog a hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol. Mae nifer fawr o athrawon wedi elwa ar y cyrsiau hyn.

64 Mewn rhai ardaloedd, cafwyd cydweithredu da rhwng awdurdodau lleol er mwyn i athrawon allu mynychu cyrsiau sydd wedi'u trefnu mewn awdurdodau lleol eraill. Lle bo hyn wedi digwydd, mae awdurdodau lleol wedi cysylltu'n agos i drefnu gwahanol gyrsiau yn hytrach na'u dyblygu, er mwyn gallu sicrhau darbodion maint a dewis ehangach.

65 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon ysgolion cynradd yn elwa'n sylweddol ar waith mentora athrawon arbenigol, yn aml o ysgolion uwchradd partner. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r mentor a'r athro dosbarth yn cynllunio rhaglen sy'n cynnwys rhai gwersi arddangos sy'n cael eu haddysgu gan y mentor, rhywfaint o addysgu tîm a rhai gwersi lle mae'r mentor yn arsylwi'r athro dosbarth ar waith. Mewn mwyafrif sylweddol o achosion, gall athrawon ysgolion cynradd arsylwi arfer dda iawn ac mae'r broses fentora yn fodel fwyfwy effeithiol i wella cymhwysedd athrawon. Fodd bynnag, nid yw nifer fach iawn o athrawon addysg gorfforol uwchradd yn ddigon medrus mewn maes gweithgaredd penodol i fod yn gwbl effeithiol wrth fentora athrawon cynradd.

66 Mae awdurdodau lleol yn gynyddol yn annog mwy o athrawon cynradd i hyfforddi fel mentoriaid oherwydd bod gan yr athrawon hyn ddealltwriaeth well yn aml o anghenion nodedig athrawon nad ydynt yn athrawon arbenigol yn eu hysgolion a'u bod yn fwy cyfarwydd â dulliau addysgu effeithiol mewn ysgolion cynradd.

67 Mewn ysgolion lle mae'r mentora yn fwyaf effeithiol, mae penaethiaid yn gwneud trefniadau priodol i athrawon drosglwyddo arfer dda a darparu parhad ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Ar leiafrif bach o adegau, mae dulliau addysgu effeithiol wedi cael

eu lledaenu mewn ffordd lai effeithiol. Mae hyn wedi golygu nad yw'r trefniadau i sicrhau parhad a dilyniant o un grŵp blwyddyn, lle mae'r athro wedi cael ei fentora, i'r dosbarth nesaf, lle nad yw'r athro wedi cael ei fentora, yn ddigon cadarn.

68 O ganlyniad i drefniadau mentora, ystod eang y cyrsiau a drefnwyd a chynhyrchu adnoddau addysgu a dysgu da iawn, mae'r rhan fwyaf o athrawon cynradd yn ystyried eu bod wedi gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysg gorfforol a'u bod wedi datblygu strategaethau addysg gwell a mwy strwythuredig. Dywed sawl athro hefyd eu bod wedi trosglwyddo medrau newydd yn llwyddiannus i feysydd eraill y cwricwlwm.

69 Mae'r rhan fwyaf o athrawon cynradd yn fwyfwy hyderus yn addysgu agweddau penodol ar addysg gorfforol fel gymnasteg a dawns a'u bod yn fwy ymwybodol o'r safonau y gallant ddisgwyl i ddisgyblion eu cyflawni. Maent hefyd yn fwy hyderus yn cymhwyso'r lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol, ac o ganlyniad, maent yn fwy sicr wrth asesu safonau a chynnydd disgyblion.

70 Yn y rhan fwyaf o'r gwersi a arsylwyd, yn gyffredin â phob pwnc ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn datblygu asesu ar gyfer dysgu ac yn canolbwyntio arno yn gynyddol wrth iddynt gynllunio gwersi. Lle bydd hyn yn digwydd, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd ar gyfer hunanasesu ac arfarnu cyfoedion.

Arfer dda

Mewn awdurdodau lleol a chanolfannau datblygu lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- cyswllt agos rhwng swyddogion yr awdurdod lleol i drefnu gwahanol gyrsiau, osgoi dyblygu a gwneud trefniadau i athrawon fynychu cyrsiau a drefnwyd mewn awdurdodau lleol eraill;
- anogaeth gan awdurdodau lleol i fwy o athrawon cynradd hyfforddi fel mentoriaid oherwydd bod gan yr athrawon hyn ddealltwriaeth well yn aml o anghenion nodedig athrawon nad ydynt yn athrawon arbenigol yn eu hysgolion a'u bod yn fwy cyfarwydd â dulliau addysgu effeithiol mewn ysgolion cynradd;
- model mentora effeithiol i wella cymhwysedd athrawon lle mae mentoriaid yn ymarferwyr o'r radd flaenaf ac mae athrawon ysgolion cynradd yn gallu arsylwi arfer dda iawn;
- fel rhan o strategaethau mentora effeithiol, mae trefniadau priodol i athrawon drosglwyddo arfer dda a sicrhau bod parhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion;
- trwy waith mentora effeithiol, mae disgwyliadau uwch o ddisgyblion oherwydd bod athrawon yn fwy ymwybodol o'r safonau y gallant eu cyflawni; ac
- mae asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd naturiol o bob gwers, a cheir adborth cadarnhaol a strwythuredig i ddisgyblion a chyfleoedd rheolaidd ar gyfer hunanasesu ac arfarnu cyfoedion.

Cyfnod cyflwyno'r fenter

71 Mae bron pob awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw wedi llunio cynlluniau priodol a threfnus ar gyfer cyfnod cyflwyno'r fenter ym mhob ysgol yn yr awdurdod erbyn 2009.

72 Bron ym mhob achos, bydd grwpiau clwstwr ym mhob awdurdod lleol yn gweithredu naill ai fel canolfannau datblygu llawn neu bartneriaethau â ffocws (gweler Atodiad 2). Bydd hyn yn eu galluogi i gefnogi cynllun strategol a gweithredol â ffocws sy'n mynd i'r afael ag un neu ddau o agweddau ar addysgu, dysgu ac asesu mewn addysg gorfforol dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynllunio y bydd canolfannau cyfagos yn dod yn weithredol ar yr un pryd i hwyluso'r cydweithredu rhwng y canolfannau a chynllunio hyfforddiant ar y cyd yn fwy effeithiol.

73 Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull hyblyg ar gyfer dyrannu cyllid. Yn yr awdurdodau hyn, mae swyddogion yn pennu union lefel y cyllid ar sail maint y bartneriaeth, ansawdd yr hunanarfarnu a natur ac effaith debygol y prosiectau arfaethedig.

74 Mae hunanarfarnu effeithiol yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod ysgolion yn monitro effaith eu gwaith ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus. Yn briodol, mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau bennu ffordd o hunanarfarnu strwythuredig. Yn gyffredinol, ni fydd awdurdodau lleol yn ymrwymo cyllid nes bod ysgolion partneriaeth wedi cwblhau hunanarfarniad addas ac wedi pennu a chytuno ar flaenoriaethau.

75 Mae AGChY wedi rhoi arweiniad manwl i ysgolion canolfannau datblygu i gynnal hunanarfarnu ac mae hefyd wedi rhoi enghreifftiau da iawn o hunanarfarnu effeithiol i helpu ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ystyried bod yr arweiniad hwn a'r ffocws ar hunanarfarnu yn hynod werthfawr fel ffordd o adolygu darpariaeth, sefydlu blaenoriaethau a chodi safonau.

76 Wrth gynllunio ar gyfer cyfnodau diweddarach cyflwyno'r fenter yn ehangach, mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynllunio i gynnwys canolfannau peilot cynnar, yn fwyaf cyffredin i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon neu fel rhan o bartneriaeth â ffocws neu bartneriaeth gynaliadwy. Mae hyn oherwydd bod yr awdurdodau hyn yn cydnabod bod ansawdd ac effaith y fenter yn y canolfannau hynny, i ryw raddau, wedi'i gyfyngu oherwydd na chafodd athrawon yn y canolfannau hyn yr adnoddau addysgu a dysgu ansawdd uchel sydd bellach ar gael neu ni wnaethant fynychu'r cyrsiau hyfforddi cysylltiedig.

Arfer dda

Mewn awdurdodau lleol lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- dull mwy hyblyg ar gyfer dyrannu cyllid sy'n ystyried maint y bartneriaeth, ansawdd yr hunanarfarnu a natur ac effaith debygol prosiectau arfaethedig;
- cynllunio i ganolfannau cyfagos ddod yn weithredol ar yr un pryd i hwyluso'r cydweithredu rhwng y canolfannau a chynllunio hyfforddiant ar y cyd yn fwy effeithiol; a
- chynnwys canolfannau peilot cynnar yn ddiweddarach yn y cyfnod cyflwyno, yn fwyaf cyffredin i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon neu fel rhan o bartneriaeth â ffocws neu bartneriaeth gynaliadwy.

Cynaliadwyedd y fenter

77 Mae llawer o benaethiaid yn mynegi pryderon y bydd manteision enfawr y fenter yn lleihau pan ddaw'r cyllid i ben. Fodd bynnag, mae tystiolaeth dda, hyd yn oed pan fydd cyllid uniongyrchol wedi dod i ben, fod etifeddiaeth o fanteision enfawr i'r ysgolion dan sylw.

78 Caiff y rhagolygon ar gyfer cynaliadwyedd yn y tymor hir eu gwella'n fawr gan y ffaith fod AGChY wedi rhoi proffil mwy i addysg gorfforol, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Mewn rhai ysgolion uwchradd, fodd bynnag, nid yw proffil AGChY mor uchel ag y dylai fod. Nid yw'r ysgolion hyn wedi ymrwymo i'r fenter i'r un graddau â'u partneriaid cynradd.

79 Ym mwyafrif yr ysgolion cynradd sy'n ymwneud â'r fenter, mae penaethiaid yn gwneud yn siwr bod disgyblion yn cael o leiaf ddwy awr o addysg gorfforol yn eu hamserlen bob wythnos. Fodd bynnag, nifer gymharol fach o ysgolion sydd lle mae disgyblion Blwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4 yn cael o leiaf ddwy awr o addysg gorfforol yn eu hamserlen bob wythnos. Mae penaethiaid uwchradd yn ei chael yn anodd iawn bodloni'r dyhead hwn oherwydd bod llawer o alw arall am amser cwricwlwm.

80 Ym mhob achos lle mae gweithgareddau cynaliadwy yn llwyddiannus, mae athrawon mewn clystyrau o ysgolion yn dangos ymrwymiad ac awydd clir i gael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael. Er enghraifft, mae pob ysgol wedi ymrwymo i o leiaf un prosiect penodol. Yn y canolfannau hyn, mae o leiaf un person yn cydnabod manteision gwaith partneriaeth parhaus ac mae'n barod i roi amser ac egni i ysgogi'r fenter yn y clwstwr hwnnw sy'n cymell eraill i ymuno. Yn benodol, ond nid yn unigryw, mae athrawon uwchradd, y mae amser pob un ohonynt yn brin, yn cydnabod bod manteision cydweithio parhaus yn fuddiol. Yn yr achosion gorau, mae awdurdodau lleol yn dyfeisio strategaethau addas i annog a chynorthwyo clystyrau o ysgolion i gynnal dull rhagweithiol.

81 Mae nodi rheolwyr canolfan addas sy'n dangos ymrwymiad cadarn i'r fenter a phenderfyniad i ysgogi prosiectau arfaethedig yn allweddol i lwyddiant y fenter yn y tymor byr ac fel model cynaliadwy. Gwnaeth un awdurdod lleol yng ngogledd Cymru benderfyniad strategol y dylai pob rheolwr canolfan weithio mewn ysgolion cynradd. Mae prif ffocws y rheolwyr hyn wedi cyfrannu'n sylweddol i lwyddiant y partneriaethau hyn ac i'r broses effeithiol iawn o rannu arfer dda yn y clwstwr ac ar draws clystyrau.

82 Y fantais a'r agwedd gynaliadwy amlycaf yn y tymor hir o ran y fenter yw'r gwelliant yn ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd a'r safonau uchel y mae disgyblion yn yr ysgolion hyn yn eu cyflawni o ganlyniad. Yn ychwanegol, bydd effaith gwaith y prosiectau arbenigol fel dawns a gymnasteg yn gynaliadwy ar ôl cyfnod y cyllid ar gyfer AGChY oherwydd bydd llawer o hyfforddwyr a mentoriaid ledled Cymru yn gallu cefnogi ysgolion pan fydd angen.

83 Mewn sawl ysgol uwchradd, mae disgyblion wedi elwa ar ehangu'r cwricwlwm, er enghraifft, trwy gyfleoedd ehangach i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac anturus. Mae'r gweithgareddau hyn yn aml yn llwyddiannus yn ennyn diddordeb disgyblion nad ydynt yn mwynhau gemau mwy traddodiadol.

84 Mewn sawl ysgol nad ydynt yn derbyn cyllid AGChY mwyach, mae enghreifftiau da o weithgaredd cynaliadwy. Mewn un ganolfan nad yw'n derbyn cyllid mwyach, mae disgyblion ysgolion cynradd wedi cael gwahoddiad i fynychu sesiynau gymnasteg a dawns ar ôl yr ysgol yn yr ysgol uwchradd glwstwr. Yn y sesiynau hyn, caiff athrawon dosbarth cynradd gymorth mentora. Fel rhan o'i gymorth ar gyfer y gweithgaredd hwn, mae'r awdurdod lleol wedi cytuno i ariannu costau cludiant.

85 Mewn sawl canolfan, bu cynnydd yn y cyfleusterau sy'n cael eu rhannu, yn enwedig wrth drefnu gwyliau neu gystadlaethau, ac fel ffordd o wella mynediad, er enghraifft, cyfleusterau nofio. Fodd bynnag, caiff ysgolion anhawster yn cynllunio trefniadau ar gyfer rhannu cyfleusterau yn ofalus neu'n ddigon cyson. Mae hyn, i raddau, oherwydd pwysau mewn ysgolion uwchradd i gael mynediad at y cyfleusterau hyn ond hefyd oherwydd y cyfyngiadau a achosir gan amser a chost cludo disgyblion cynradd i leoliadau eraill.

86 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cefnogi'r fenter hon trwy ddod o hyd i gyllid ychwanegol, er enghraifft, i anfon mwy nag un athro ar gyrsiau hyfforddi. Mewn sawl ysgol uwchradd, mae penaethiaid yn dod o hyd i'r cyllid angenrheidiol i dalu costau staff llanw ar gyfer mentoriaid oherwydd bod ganddynt farn gadarnhaol am fanteision y trefniadau.

87 Mewn sawl awdurdod lleol, mae clystyrau wedi cael ychydig mwy o gyllid, fel arfer am flwyddyn, i gefnogi prosiect penodol neu i'w galluogi i gydweithio. I ryw raddau, mae'r cymorth ychwanegol hwn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth yr awdurdodau lleol na wnaeth canolfannau cynharach elwa ar yr un lefelau o adnoddau addysgu a dysgu a hyfforddiant â chanolfannau diweddarach. Mae'r cyllid hwn fel arfer wedi'i gynllunio i sicrhau bod athrawon o'r canolfannau hyn yn parhau i allu cael mynediad at gyrsiau a'u bod yn cael yr un adnoddau â'r holl ganolfannau eraill yn ogystal â hwyluso rhagor o gymorth mentora. Mae un awdurdod lleol yng Nghymru yn bwriadu parhau i ariannu pob canolfan 'mor hir ag y bo modd'. Mae'r awdurdod hwn yn credu bod y manteision yn sgil AGChY yn awr yn cael eu hymgorffori cymaint yng nghynlluniau'r awdurdod a'r ysgol nes y byddant yn eu cynnal eu hunain.

88 Mewn llawer o ysgolion, lle mae'r cyllid wedi dod i ben, nid yw penaethiaid ac athrawon addysg gorfforol yn rhoi digon o ystyriaeth i'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cynnal momentwm y fenter. Lle bo hyn yn wir, mae'r dystiolaeth o brosiectau newydd sy'n dechrau, yn gyfyngedig.

Arfer dda

Mewn awdurdodau lleol a chanolfannau datblygu lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- rhagor o gyllid gan awdurdodau lleol, fel arfer am flwyddyn, i gefnogi prosiect penodol neu i alluogi ysgolion partner i barhau i gydweithio;
- cyllid ychwanegol gan benaethiaid i anfon mwy nag un athro cynradd ar gyrsiau hyfforddi ac i gefnogi'r fenter;
- cyllid ar gyfer costau staff llanw er mwyn i athrawon uwchradd arbenigol allu parhau i roi cymorth mentora achlysurol mewn ysgolion cynradd;
- sesiynau addysgu a mentora ar ôl yr ysgol mewn gweithgareddau penodol ar gyfer disgyblion cynradd a'u hathrawon, wedi'u trefnu gan reolwyr canolfannau datblygu;
- mae rheolwyr canolfannau effeithiol, sy'n aml yn athrawon mewn ysgolion cynradd, sy'n dangos ymrwymiad cadarn i'r fenter, yn deall anghenion penodol yr ysgolion clwstwr ac mae ganddynt y penderfyniad i ysgogi prosiectau arfaethedig; ac
- ymrwymiad clir gan athrawon i gynnal cydweithio a chydnabod y manteision gwaith partneriaeth parhaus.

Rheoli'r fenter

Pobl Ifanc Heini

89 Mae'r cyswllt rhwng cydlynwyr AGChY, Campau'r Ddraig a swyddogion 5x60 yn datblygu'n dda iawn. Mae swyddogion sy'n arwain y mentrau hyn ym mhob awdurdod lleol wedi cyfarfod â'i gilydd i gynllunio a chydlynu eu gwaith ac i sicrhau bod pob menter yn cefnogi ac yn ategu gwaith yr awdurdodau lleol eraill. Ym mhob awdurdod lleol, mae cydlynwyr AGChY, Campau'r Ddraig a swyddogion 5x60 wedi cynllunio amserlen drefnus ar gyfer ymgorffori pob clwstwr yn llawn ym mhob un o dair elfen y rhaglen. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae awdurdodau lleol yn rhoi cymorth i ysgolion mewn o leiaf un maes ar unwaith.

90 Mae cyswllt fwyfwy effeithiol rhwng swyddogion AGChY a swyddogion datblygu chwaraeon awdurdodau lleol i gydlynu cynllunio cyrsiau a hyrwyddo clybiau chwaraeon, cystadlaethau a gwyliau. Mae gwaith partneriaeth gwell a chyswllt effeithiol rhwng AGChY a swyddogion datblygu chwaraeon awdurdodau lleol yn cyfrannu i ystod gynyddol o weithgareddau allgyrsiol mewn llawer o ysgolion.

91 Mewn llawer o ganolfannau, bu cyswllt agos rhwng mentrau AGChY a'r cynllun ysgolion iach (gweler yr eirfa).

Awdurdodau lleol

92 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae dogfennau cynllunio strategol allweddol yn dangos cydnabyddiaeth gynyddol o'r graddau y mae AGChY yn ganolog i flaenoriaethau allweddol yr awdurdod. Mae un awdurdod lleol yng Nghymru yn ystyried bod absenoldeb yn broblem gymunedol ac yn un o'i brif rwystrau rhag gwella ac adfywio. Mae hyn yn amlwg ar lefel ysgol mewn ffigurau presenoldeb gwael iawn. Mae'r awdurdod wedi nodi bod mynd i'r afael â'r rhwystr hwn yn flaenoriaeth strategol allweddol yn y tymor hir ac mae'n ceisio annog 'diwylliant gweithgaredd a ffitrwydd' gwell yn y boblogaeth gyfan. Mae'n cydnabod y gall AGChY fod â rôl ganolog yn annog disgyblion i fwynhau a llwyddo mewn addysg gorfforol.

93 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, caiff AGChY ei rheoli'n dda yn y gyfarwyddiaeth addysg. Mae hyn, ynghyd â chyswllt agos â'r ymgynghorydd addysg gorfforol, lle mae ymgynghorydd o'r fath yn ei swydd, yn helpu rhoi cyfeiriad addysgol clir wrth reoli'r fenter. Mae cydlynwyr AGChY yn elwa'n sylweddol ar ddod yn gyfarwydd â mentrau addysgol ehangach, er enghraifft, y rheiny i wella llythrennedd a throsglwyddo a gwerthfawrogi cyfraniad ehangach AGChY i ddysgu ar draws y cwricwlwm.

94 Mae'r ffaith fod ymgynghorydd addysg gorfforol yn bresennol i oruchwylio'r fenter a rhoi cymorth uniongyrchol i gydlynwyr AGChY a rheolwyr canolfannau datblygu yn fanteisiol iawn. Er enghraifft, mae ymglymiad ymgynghorydd addysg gorfforol yng nghyfarfodydd cychwynnol canolfannau datblygu, lle cytunwyd ar flaenoriaethau, yn cryfhau'r broses yn sylweddol.

95 Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn dyrannu cyllid ychwanegol, er enghraifft, i ymestyn y broses o gyflwyno a chynnal y fenter ym mhob ysgol neu i brynu cymorth ymgynghorol ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw hwn yn ddull cyffredin. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi bod yn amharod i ymrwymo cyllid ychwanegol oni bai y gwelir bod ysgolion yn elwa ar y fenter. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn annog ysgolion i ddefnyddio adnoddau eraill fel cyllid a ddyrannwyd i fentrau bro, grantiau trosglwyddo, cyllid cynhwysiad, neu i wneud cais am gyllid gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gefnogi prosiectau AGChY penodol.

96 Hoffai awdurdodau lleol wybod beth fydd y sefyllfa o ran cael cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y tymor canolig a'r tymor hir.

97 Yn gynyddol, fel rhan o broses sicrhau ansawdd, mae arbenigwyr AGChY yn rhoi arfarniadau defnyddiol o ansawdd y fenter a'i heffaith mewn awdurdodau lleol unigol ar gyfer swyddogion addysg a rheolwyr Cyngor Chwaraeon Cymru. Mewn pedwar awdurdod lleol, mae'r gwasanaeth ymgynghorol yn cynnal adolygiadau blynyddol manwl o bob canolfan. Mae'r adolygiadau hyn yn hyrwyddo proffil AGChY, yn cysylltu'r fenter ag amcanion strategol ehangach, yn cadarnhau safonau ac yn nodi meysydd i'w gwella ym mhob ysgol. Yn ychwanegol, lle mae adolygiadau yn nodi arfer dda, mae'r ymgynghorydd addysg gorfforol yn hyrwyddo'r agwedd hon ar waith trwy ddiwrnodau hyfforddi a chynadleddau awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw'r math hwn o fodel asesu yn arfer gyffredin.

Arfer dda

Mewn awdurdodau lleol lle gwelir yr arfer orau, mae'r nodweddion canlynol yn amlwg:

- anogaeth gan yr awdurdod lleol i ysgolion ddefnyddio adnoddau eraill fel cyllid a ddyrannwyd i fentrau bro, grantiau trosglwyddo, cyllid cynhwysiad, neu i wneud cais am gyllid gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gefnogi prosiectau AGChY penodol; ac

- adolygiadau rheolaidd gan ymgynghorwyr addysg gorfforol o waith y canolfannau datblygu sy'n cadarnhau safonau yn gyffredinol, nodi meysydd i'w gwella ym mhob ysgol, helpu codi proffil AGChY sy'n gallu arwain at ragor o ddiwrnodau a chynadleddau hyfforddi.

Cyngor Chwaraeon Cymru

98 Mae dull Cyngor Chwaraeon Cymru o reoli'r fenter yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae'r cyfathrebu a'r berthynas ag uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol ledled Cymru yn parhau i fod yn gadarnhaol.

99 Mae'r hyfforddiant ar gyfer cydlynwyr AGChY yn fwyfwy effeithiol ac wedi'i drefnu'n dda. Mae cydlynwyr AGChY yn ystyried bod digwyddiadau hyfforddi wedi'u strwythuro'n dda ar y cyfan, a'u hansawdd yn aml yn dda iawn. Maent yn gwerthfawrogi'r pwyslais a roddir ar agweddau ymarferol eu gwaith a'r cyfle i ymwneud â mentrau addysgol perthnasol fel y Cyfnod Sylfaen. Mae cydlynwyr AGChY yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant sefydlu PIH a roddodd lawer o wybodaeth ddefnyddiol iddynt am waith swyddogion PIH (Campau'r Ddraig a swyddogion 5x60) ac fe wnaethant roi cyfleoedd da i weithio gyda swyddogion PIH i gydlynu'r broses o gyflwyno pob agwedd ar raglenni PIH ac AGChY.

100 Wrth gynllunio hyfforddiant, mae swyddogion Cyngor Chwaraeon Cymru yn archwilio'r holl ddulliau posibl yn gynyddol i ddarparu ystod o weithgareddau a gweithdai sy'n bodloni anghenion amrywiol holl gydlynwyr AGChY yn y ffordd orau. Yn y gynhadledd flynyddol ddiweddaraf, trefnwyd ystod o weithdai amgen i fodloni gwahanol anghenion cydlynwyr AGChY profiadol a chydlynwyr AGChY a benodwyd yn ddiweddar. Roedd cydlynwyr AGChY sydd â chefndiroedd amrywiol iawn o ran cymwysterau, arbenigedd a chyflogaeth flaenorol, yn croesawu'r dull hwn. Fodd bynnag, mae'r trefniadau i sicrhau bod pob cydlynydd AGChY a benodwyd yn ddiweddar yn cael rhaglen sefydlu addas ac eang cyn dechrau eu gwaith, yn llai cynhwysfawr.

101 Mae'r rhan fwyaf o gydlynwyr AGChY yn benodol yn gwerthfawrogi sesiynau hyfforddi rhanbarthol, y maent yn gyffredinol yn ystyried eu bod yn gynhyrchiol, oherwydd bod ganddynt fwy o reolaeth dros y cynnwys a'r rhaglen.

Prosiectau arbenigol

Gymnasteg

102 Mae'r grŵp datblygu gymnasteg wedi cynhyrchu adnoddau ardderchog ar ffurf dau CD Rom rhyngweithiol ar gyfer cyfnod allweddol 1 a disgyblion iau cyfnod allweddol 2. Mae'r adnoddau a'r hyfforddiant cysylltiedig wedi cael eu croesawu'n fawr gan athrawon, ymgynghorwyr a sefydliadau addysg uwch. Mae'r adnoddau wedi cael effaith sylweddol ar safonau disgyblion. Mae tua 25 o bobl wedi cael eu hyfforddi fel tiwtoriaid ar gyfer modiwlau 1 a 2 ond rhoddwyd y gorau i'r cynlluniau i bob sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru ymgorffori modiwl 1 fel rhan o'r holl raglenni athrawon cynradd oherwydd bod yr amser sydd ar gael i hyfforddi darpar athrawon mewn addysg gorfforol wedi'i gyfyngu.

103 Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn cwblhau ei waith i gynhyrchu adnoddau tebyg ar gyfer disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae strwythur tebyg i bob un o'r pedwar modiwl, gan gynnwys clipiau fideo o ddisgyblion yn dangos dilyniannau ar ddiwedd uned sy'n rhoi enghreifftiau o berfformiad ansawdd da, enghreifftiau o weithgareddau corff-addysg a phwyntiau addysgu defnyddiol ac awgrymiadau ar gyfer cynlluniau gwersi, gydag adnoddau addysgu ategol.

104 Gellir lawrlwytho'r holl ddeunyddiau ac maent yn hawdd iawn i'w defnyddio. Mae Modiwlau 3 a 4 yn cynnwys dulliau dysgu wedi'u cynllunio'n dda i gefnogi cynnydd disgyblion trwy gontinwwm sy'n fwy seiliedig ar fedrau. Bydd Modiwl 4 yn ymgorffori ystod ehangach o fodiwlau arbenigol, fel acrobateg chwaraeon, a fydd hefyd yn briodol ar gyfer llawer o grwpiau cyfnod allweddol 4 ac yn cysylltu'n dda â chyrsiau arweinyddiaeth gymnasteg. Mae pob un o'r modiwlau yn cael eu mireinio ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn cyfateb yn llawn i Orchymyn Pwnc diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r gofynion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Dawns

105 Ers i'r fenter AGChY ddechrau, mae dros hanner holl gynlluniau'r canolfannau wedi cynnwys ffocws ar ddatblygu arbenigedd athrawon mewn dawns. Mae nifer o sefydliadau a phersonél lleol sydd â gwybodaeth arbenigol wedi darparu cyrsiau hyfforddi y mae eu hansawdd yn aml yn uchel, tra bod ymgynghorwyr ac athrawon o nifer o ganolfannau datblygu wedi cynhyrchu adnoddau sy'n hawdd i'w defnyddio fel CD Rom rhyngweithiol.

106 Bu ffocws y prosiect dawns ar ddatblygu adnoddau addysgu o ansawdd uchel sy'n dod â nodweddion gorau deunyddiau cynharach at ei gilydd ac yn eu defnyddio. Mae ansawdd y CD Rom rhyngweithiol yn rhagorol ac mae wedi cael ei groesawu'n fawr yn ystod y broses beilot. Mae'n canolbwyntio ar sefydlu geirfa disgyblion am symud a gweithredoedd sylfaenol a ffyrdd y gall disgyblion ddatblygu a chyfuno'r gweithredoedd hyn i greu a mireinio dawnsfeydd.

107 Gellir lawrlwytho'r holl ddeunydd ac mae wedi'i gyflwyno mewn fformat sy'n hawdd i'w ddefnyddio er mwyn i ddisgyblion yn ogystal ag athrawon allu cael mynediad ato. Bydd hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu trwy ddewis y llwybr/au y maent yn dymuno eu dilyn wrth gynllunio eu danwsfeydd eu hunain.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

108 Canolbwynt y prosiect TGCh oedd datblygu meddalwedd addas a fydd yn berthnasol i ysgolion ar draws yr ystod oedrannau. Bwriad yr adnodd yw cysylltu'r cwricwlwm addysg gorfforol â'r cwricwlwm TGCh a'r fframwaith medrau. Fel hyn, dylai disgyblion ac athrawon allu cydlynu eu gwaith ym maes addysg gorfforol â gwaith ym mhynciau eraill y cwricwlwm ynghyd â medrau allweddol. Mae lle hefyd i ddatblygu gwaith mewn addysg bersonol a chymdeithasol sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Mae'r meddalwedd wedi cael ei gynllunio fel ei fod yn cynnig offer i asesu ar gyfer dysgu ac i fod yn ddefnyddiol i athrawon ynghyd ag i ddysgwyr.

109 Wrth gynnal peilot o'r adnodd, mae ysgolion mewn tri awdurdod lleol wedi defnyddio'r meddalwedd i ganiatáu disgyblion i ddatblygu eu medrau cynllunio ac arfarnu drwy ddadansoddiad o berfformiad. Maent hefyd wedi gweithio ar ddatblygu proffiliau disgyblion o berfformiad sy'n cynnwys tystiolaeth fideo, dadansoddiad ysgrifenedig a thargedau ar gyfer gwella. Mae rhai o'r sylwadau ar broffiliau Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 yn fanwl iawn ac maent yn cynnwys dadansoddiad ystyrlon iawn sydd y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl fel arfer gan ddisgyblion o'r oedran hwn.

110 Mae gan yr adnodd potensial rhagorol. Effaith fwyaf gwerthfawr yr adnodd yw ei bod yn symbylu disgyblion i wella'u perfformiad. Trwy ddefnyddio delweddau ohonynt eu hunain, mae disgyblion wedi gallu arsylwi ar eu perfformiad eu hunain, a'i ddadansoddi, yn llawer mwy cywir ac felly roeddent yn gosod targedau mwy ystyrlon ar gyfer gwella.

111 Ar hyn o bryd, mae ymgynghorydd y prosiect yn cynnal arfarniad o broses y peilot er mwyn nodi sut y gall elfennau'r adnodd gael eu mireinio a'u gwella. Yn dilyn hyn bydd mentoriaid yn gweithio gyda chlystyrau o ysgolion i gynnig cefnogaeth benodol a pherthnasol i ateb eu hanghenion penodol.

Ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd

112 Mae'r grŵp datblygu ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd wedi elwa ar ymgynghori helaeth a gweithgareddau peilot i ddatblygu adnoddau cynhwysfawr, o ansawdd hynod uchel. Mae'r adnoddau hyn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella dysgu a dealltwriaeth disgyblion o faterion iechyd a lles. Mae'r ddwy CD Rom rhyngweithiol wedi'u cynllunio i gefnogi cyflwyno ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r deunydd yn cyd-fynd â gofynion ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd y Cwricwlwm Cenedlaethol, gan gynnwys gofynion gwyddonol ac addysg bersonol a chymdeithasol cysylltiedig. Mae gwaith y grŵp hwn yn adeiladu'n llwyddiannus ar y pwyslais cryf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar weithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles.

113 Mae'r adnoddau'n cynnwys cyfres gynhwysfawr, wedi'i chynllunio'n dda, o dasgau dilyniadol, yn gysylltiedig â meysydd gwahanol o addysg gorfforol, sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau dysgu penodol ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae canolbwynt clir iawn ar fanteision cymdeithasol, meddyliol a chorfforol ymarfer a ffordd iach o fyw. Gellir llwytho llyfrynnau a thaflenni gwaith rhyngweithiol i ddisgyblion i lawr ac mae'r rhain wedi'u cynhyrchu'n dda iawn.

114 Mae'r holl diwtoriaid wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno cyrsiau ac i fentora athrawon sy'n defnyddio'r adnoddau. Mae'r hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol iawn i athrawon ac maent yn ystyried bod yr adnoddau yn arbennig o werthfawr, er bod rhai wedi nodi y byddent wedi dymuno derbyn y rhain ychydig yn gynt.

115 Ar hyn o bryd, mae'r adnoddau'n cael eu diwygio er mwyn ystyried y diwygiadau i'r cwricwlwm ysgol a'r trefniadau asesu o fis Medi 2008 ymlaen, yn enwedig i wneud cyfeiriadau mwy pendant at ddatblygu medrau ac i sicrhau cysondeb â'r gofynion ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Casgliad

116 Mae'r gwerthusiad hwn o'r cynnydd wrth roi'r cynllun gweithredu AGChY ar waith yn nodi llawer o enghreifftiau o arfer dda. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd i godi safonau mewn addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'n ddisgwyliad y gall yr arfer dda a nodwyd yn yr adroddiad hwn gefnogi datblygiad y fenter hon ymhellach a chyfrannu at godi safonau ymhellach.

Atodiad 1

Cynllun Gweithredu AGChY ar gyfer Cymru (cyhoeddwyd 2001)

Crynodeb o'r argymhellion allweddol

(1) Codi safonau mewn addysg gorfforol trwy wneud yn siŵr bod pob ysgol:

- yn rheoli'r pwnc yn effeithiol o fewn cwricwlwm yr ysgol gyfan;
- yn gosod targedau heriol ar gyfer codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol;
- yn darparu digon o amser yn y cwricwlwm i addysgu gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol ym mhob cyfnod allweddol;
- yn datblygu medrau corfforol pobl ifanc o un flwyddyn i'r llall; ac yn
- gwella'u dealltwriaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd.

(2) Gwneud yn siŵr bod Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn rhoi i hyfforddeion yr hyder, y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i addysgu addysg gorfforol.

(3) Codi safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol trwy sefydlu rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) achrededig ar gyfer pob athro.

(4) Gwella ansawdd yr ystafelloedd a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol ym mhob ysgol yng Nghymru.

(5) Cefnogi ysgolion yng Nghymru i ymestyn cyfleoedd ar gyfer chwaraeon ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol trwy wella ansawdd ac ehangder gweithgareddau ar ôl ysgol ar gyfer pob person ifanc, beth bynnag yw eu hoedran, eu gallu, eu hethnigrwydd, eu rhyw neu eu lleoliad daearyddol.

(6) Sefydlu Canolfannau Datblygu Cwricwlwm (CDC) a gwneud yn siŵr eu bod yn cydweithio er mwyn nodi a datblygu arfer dda mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Atodiad 2

Modelau ar gyfer partneriaethau AGChY

Bydd partneriaeth AGChY yn cynnwys clwstwr o ysgolion. Fel arfer, bydd hyn yn seiliedig ar un ysgol uwchradd â'i phrif ysgolion cynradd sy'n bwydo. Mae ystod hyblyg o fodelau partneriaeth yn bodoli, sy'n cynnwys asiantaethau priodol eraill a all gyfrannu at waith y bartneriaeth, fel colegau trydyddol, sefydliadau addysg bellach ac uwch, canolfannau hamdden, darparwyr anghenion addysgol arbennig, darparwyr gwasanaethau ieuenctid a chymunedol.

Mae **canolfannau datblygu** yn glystyrau o ysgolion sy'n cael cyllid llawn (rhwng £7,000 a £12,000) i ysgrifennu a rhoi cynlluniau strategol a gweithredol ar waith sy'n seiliedig ar hunanadolygiadau o addysg gorfforol sy'n cwmpasu amrywiaeth o agweddau ar addysgu, dysgu ac asesu mewn addysg gorfforol. Bydd y math hwn o bartneriaeth yn parhau i brofi syniadau, dulliau ac adnoddau newydd ac arloesol. Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni anghenion y staff yn yr ysgolion partner. Bydd y partneriaethau hyn hefyd yn gysylltiedig â chynllunio cynnwys a strwythurau'r prosiect AGChY arbenigol.

Mae **partneriaethau cynaliadwy** yn glystyrau o ysgolion sydd naill ai'n cael ychydig o gyllid (llai na £2,000) neu ddim cyllid o gwbl, ond sydd yn parhau i weithio ar y cyd i sicrhau bod addysg gorfforol gyson, o ansawdd uchel yn cael ei chyflwyno. Gall y partneriaethau hyn barhau i elwa ar gefnogaeth cyswllt yr awdurdod lleol, y cydlynydd AGChY neu'r ymgynghorydd AGChY. Gall partneriaethau cynaliadwy hefyd barhau i gymryd rhan mewn prosiectau AGChY arbenigol ac i elwa ar gyfleoedd ac adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus AGChY.

Mae **canolfannau â ffocws** yn glystyrau o ysgolion sy'n cael swm cyfyngedig o gyllid (£2-6,000) i gefnogi cynllun strategol a gweithredol â ffocws sy'n mynd i'r afael ag un neu ddwy o'r agweddau ar addysgu, dysgu ac asesu mewn addysg gorfforol a gafodd eu nodi drwy'r broses hunanadolygu addysg gorfforol. Bydd y partneriaethau hyn yn canolbwyntio'n fwy ar roi arfer dda ar waith yn hytrach na phrofi syniadau ac arferion newydd. Bydd yr ysgolion partner wedi trefnu cyrsiau AGChY yn unol â'u cynlluniau gweithredu.

Mae **partneriaethau datblygiad proffesiynol** yn glystyrau o ysgolion sy'n cael mynediad i gyfleoedd ac adnoddau datblygiad proffesiynol drwy raglenni lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Yn ogystal, gall yr ysgolion hyn gael cefnogaeth gan y rheolwr llinell, y cydlynydd AGChY a'r ymgynghorydd AGChY. Bydd mynediad i astudiaethau achos arfer dda ac adnoddau ar gael i'r ysgolion hyn hefyd.

Geirfa

5x60 – rhaglen newydd sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Ei nod yw annog disgyblion uwchradd yng Nghymru i fod yn fwy heini. Dros y tair blynedd nesaf, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi £7.6 miliwn yn y cynllun. Cynhaliwyd peilot o'r prosiect 5x60 mewn wyth ysgol yn 2006.

AYP (PIH) – term ymbarél sy'n cynnwys Campau'r Ddraig, y fenter AGChY a'r fenter 5x60

Campau'r Ddraig – rhaglen a reolir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ai hariannu gan y loteri, sy'n cynyddu cyfranogiad mewn partneriaeth â chymunedau a gwirfoddolwyr. Mae Campau'r Ddraig yn cyflwyno plant 7-11 mlwydd oed i ystod o gampau y tu allan i wersi addysg gorfforol ysgolion ac mae'n rhoi cyfleoedd iddynt fwydo i mewn i raglenni datblygu chwaraeon mewn clybiau ac yn y gymuned ac i symud ymlaen drwyddynt.

CCAC – cymdeithas cyfarwyddwyr addysg Cymru. Cynrychiolir pob awdurdod lleol ar y corff hwn, sy'n cyfarfod i drafod materion ac i gytuno ar ymatebion a strategaethau.

Cydlynwyr AGChY – penodir cydlynwyr AGChY gan awdurdodau lleol i reoli'r fenter gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru ym mhob awdurdod lleol. Rôl cydlynydd AGChY yw sefydlu canolfannau datblygu yn yr awdurdod lleol a chefnogi rheolwyr canolfannau datblygu i drefnu a rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith a lledaenu arfer dda.

CyngACC – Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yw'r corff proffesiynol hunanreoleiddiol statudol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru. Ei nod yw cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon

Rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach – mae rhwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach (RhCGYI) yn annog datblygiad cynlluniau ysgolion iach lleol oddi mewn i fframwaith cenedlaethol. Mae'r partneriaethau lleol hyn rhwng gwasanaethau iechyd ac addysg yn annog ysgolion sy'n hybu iechyd yn eu hardaloedd.

Mae cydlynwyr ysgolion iach yn helpu ysgolion i nodi beth sydd angen iddynt eu gwneud i ddod yn fwy iach, ac yn yna'u helpu i gyflawni'r camau perthnasol.

Ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd – mae ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cyfeirio at y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau a'r agweddau yr ystyrir eu bod yn hanfodol i hyrwyddo ffordd weithgar o fyw. Yng Nghwricwlwm Cymru 2008, mae rhaglenni ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd wedi cael eu disodli gan weithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles ar draws pob cyfnod allweddol i adlewyrchu pwyslais integredig, ehangach, ymarferol ym mhob rhaglen astudio. Mae gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles yn ffurfiau anghystadleuol o ymarfer, fel loncian, gwaith cylchol, sgipio, nofio a ioga y cânt eu dewis ar gyfer yr hyn y maent yn ei gyfrannu at iechyd, nodau ffitrwydd a theimladau cyffredinol.

Yn y Parth – menter a lansiwyd yn 2005 gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Caiff tir ysgol ei rannu'n barthau gweithgaredd fel rhan o gynllun i annog gemau'r iard ysgol, i atal diflastod, lleihau bwlio a chynyddu ymarfer a dysgu. Mae goruchwylwyr amser cinio yn cael eu hyfforddi i reoli gweithgareddau 'Yn y Parth' ac mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am reoli offer a gofalu am blant iau.

******

Cwricwlwm Cymru 2008 – Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu y dylai'r canlynol fodoli yng Nghymru o 2008 ymlaen:

- fframwaith cydlynol unigol ar gyfer cwricwlwm, asesu a chymwysterau 3-19 a fydd yn helpu ysgolion i godi safonau cyflawniad ac ehangu cyfleoedd addysgol; a

- set o Orchmynion Pwnc diwygiedig sy'n hyfyw ac sy'n adlewyrchu nodweddion y cwricwlwm llawn a nodweddion pob cyfnod allweddol.

Mae'r agenda ar gyfer datblygu'r fframwaith cwricwlwm ac asesu diwygiedig hwn i Gymru yn seiliedig ar y Gweinidog yn derbyn yr argymhellion allweddol yn *Adolygiad ACCAC o'r cwricwlwm ysgol a threfniadau asesu 5-16: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru 2004*.

Nod yr adolygiad hwn oedd sefydlu cwricwlwm ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol, gan ystyried anghenion ehangach Cymru hefyd.

I helpu i gyflawni hyn, mae'r diwygiadau i'r Gorchmynion yn ategu nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm diwygiedig yn hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac ar fedrau, sy'n adeiladu ar y Cyfnod Sylfaen ac sy'n cysylltu'n effeithiol â'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, ac sy'n parhau i gyflwyno cwricwlwm nodedig sy'n briodol i Gymru.

Mae fersiynau terfynol o'r Gorchmynion Pwnc ar gael bellach.